

## SWYDDOG GWOBR JOHN MUIR (CYMRU)

Ydych chi'n unigolyn talentog sydd am ddatblygu eich gyrfa mewn sefydliad cadwraeth blaengar? Y rheswm y mae Ymddiriedolaeth John Muir yn bodoli yw - i warchod, amddiffyn ac thrwsio ardaloedd gwyllt er budd pawb - rheswm na fu erioed yn bwysicach na nawr.

Mae Ymddiriedolaeth John Muir yn recriwtio Swyddog Gwobr John Muir i helpu i gyflawni ein prosiect ymgysylltu uchelgeisiol ledled Cymru. Mewn partneriaeth a Cyfoeth Naturiol Cymru, byddwch yn cefnogi dros 13,000 o bobl i weithredu dros ardaloedd gwyllt, trwy Wobr John Muir.

Dyma gyfle unigryw i ymuno â thîm Ymgysylltu a Gwobr Ymddiriedolaeth John Muir wrth i ni ddatblygu adnoddau, gallu a isadeiledd er mwyn i bob ysgol yng Nghymru gael mynediad i ardaloedd gwyllt trwy wobr John Muir.

Bydd y swyddog yn atebol i Reolwr Cymru a Lloegr Ymddiriedolaeth John Muir, mi fydd yn cydweithredu â thîm sy'n gweithio ledled Cymru i gefnogi, gweinyddu a datblygu Gwobr John Muir. Byddwch yn cyflwyno hyfforddiant a DPP ar gyfer ein rhwydwaith o ddarparwyr Gwobr John Muir, yn gweithio gydag eraill i sefydlu partneriaethau cyffrous a sicrhau bod Ymddiriedolaeth John Muir yn gwneud cyfraniad perthnasol i agendâu cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol yng Nghymru.

Wrth ymgeisio bydd angen i chi ddangos eich profiad o sefydlu perthynas effeithiol a darparu gwasanaeth gwych i gwsmeriaid, wrth reoli eich llwyth gwaith eich hun i gyrraedd targedau. Os oes gennych ddealltwriaeth gref o bwysigrwydd dysgu awyr agored a chysylltiad i natur, a'i gyfraniad at gyflawni ystod o ganlyniadau: gan gynnwys blaenoriaethau addysg a chwricwlwm, buddion iechyd a lles, sgiliau cyflogadwyedd a gweithredu dros natur, yna ystyriwch ymuno â'n tîm.

Mae Ymddiriedolaeth John Muir wedi ymrwmo i weithio gyda'n gilydd i hyrwyddo amgylchedd gweithio mwy cynhwysol ac mae angen tîm amrywiol arnom i wireddu hyn. Mae croeso i ymgeiswyr o bob cefndir gyda chefnidiroedd, diwylliannau, safbwyntiau a phrofiadau amrywiol i gefnogi ei gwaith ar ran ardaloedd gwyllt.

## PRIF DDYLETSWYDDAU

- Datblygu presenoldeb Ymddiriedolaeth John Muir Trust yng Nghymru ochr yn ochr a Rheolwr Cymru ynghyd a rheolwyr partnariethau rhanbarthol eraill.
- Targedau allweddol, cynnwys 25% wobrau wedi eu cyflawni gan bobl yn profi rhyw fath o anfantais, gan gynnwys gweithgarwch trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Cefnogi Darparwyr Gwobr John Muir presennol a newydd i gyflawni'r Wobr yn effeithiol, gan reoli pob agwedd ar eu cyfranogiad gan gynnwys darparu gwybodaeth, cyngor, arweiniad a hyfforddiant.
- Cysylltu gweithgareddau'r wobr â mentrau perthnasol y Llywodraeth ym meysydd lles, iechyd, cyflogadwyedd, gwaith ieuencid, gweithredu cymdeithasol, iaith a diwylliant Cymru, bioamrywiaeth a chysylltiad natur.
- Cofnodi a datblygu cyfleoedd i gyfathrebu ein straeon o lwyddiant i ennyn diddordeb cefnogwyr trwy'r cyfryngau cymdeithasol.

- Cyfrannu at lwyddiant cyffredinol y prosiect a gweithio gyda adrannau eraill Ymddiriedolaeth John Muir.
- Gweithio gyda thim y wobr i ymateb i ymholiadau, gan ddarparu gwasanaeth cwsmer gwych trwy ein rhwydwaith.

## MANYLION PERSONOL

### Profiad Hanfodol

- Gwybodaeth am flaenoriaethau addysg a dysgu cymunedol, cymunedau Cymraeg a mentrau / rhwydweithiau lles yng Nghymru; a dealltwriaeth o'u rhyngweithio â'r sectorau awyr agored ac amgylcheddol.
- leiaf 2 flynedd o brofiad yn sefydlu a rheoli partneriaethau effeithiol a chynhyrchu canlyniadau.
- Sgiliau trefnu cryf gyda'r gallu i reoli'ch llwyth gwaith eich hun a gweithio yn at dargedau.
- Sgiliau rhyngpersonol rhagorol, y gallu i weithio'n dda gydag eraill fel rhan o dîm.
- Ymgysylltu yn hyderus ag ystod eang o sefydliadau ac unigolion, yn ffurfiol ac yn anffurfiol.
- Sgiliau cyfathrebu llafar / ysgrifenedig da - y gallu i fynegi'ch hun yn dda yn bersonol, ar y ffôn a thros sianeli cyfryngau digidol.
- Adrodd yn greadigol - diddordeb mewn trosi profiadau yn straeon llwyddiant er mwyn ennyn diddordeb cefnogwyr.
- Sgiliau TG - gwybodaeth am becyn MS Office.
- Trwydded yrru lawn a pharodwydd i deithio i ddigwyddiadau a chwrdd â phartneriaid.

### Profiadau Dymunol

- Gweithio gyda gwirfoddolwyr a phobl ifanc, yn yr awyr agored yn ddelfrydol.
- Sgiliau yn y Gymraeg. Mae'r gallu i sgwrsio yn y Gymraeg yn fuddiol iawn i'n gwaith yng Nghymru. Rhoddir ystyriaeth ychwanegol i ymgeiswyr a all ddangos hyn.
- Cyfryngau cymdeithasol, a llwyfannau cyfathrebu a chyfryngau eraill.
- Gweithio mewn amgylchedd rheoli prosiect.

### Rhinweddau hanfodol

- Deall a gwerthfawrogiad o'r iaith Gymraeg; ac o werth a phwysigrwydd annog cyfranogiad Cymraeg
- Yn llawn cymhellant, yn awyddus i fentro a chymryd cyfrifoldeb.
- Ynni, brwdfrydedd yn eich dull o weithio.
- Empathi tuag at eraill, yn enwedig cymunedau amrywiol ac anfanteisiol.
- Ethig gwaith cryf, yn gallu gweithio o bell heb fawr o oruchwyliaeth.
- Y gallu i weithio oriau hyblyg.
- Ymrwymiad i nodau ac amcanion Ymddiriedolaeth John Muir.

### Cymwysterau

- Addysg i lefel gradd neu debyg.
- Cymwysterau a neu dystiolaeth sylweddol o ddatblygiad proffesiynol parhausyn berthnasol i'r pwrpas rôl a'r lefel.

## Telerau ac Amodau

Cyfloh:	£20,000 - £22,000 y flwyddyn pro rata
Lleoliad:	Gweithio o adre (yng Nghymru) - rhoddir ystyriaeth ychwanegol i ymgeiswyr sy'n ymgeisio o leoliadau de / de-ddwyrain Cymru.
Cyfnod Prawf:	3 mis
Rheolwr Llinell:	Rheolwr Cymru a Lloegr
Pensiwn:	5% cyfraniad cyflogwr i gynllun pensiwn
Gwyliau:	34 Dydd y flwyddyn (pro rata) a 2 ddiwrnod gwyllt
Oriaau	0.6 FTE - 21 awr yr wythnos
Cyfnod:	Tymor Penodol tan 31 ain o Ragfyr 2023

Dyddiad Cau: Hanner nos ar y 15/12/21

Cyfweliadau: Yr wythnos sy'n dechrau ar 03/01/21

**Mae telerau ac amodau cyflogaeth safonol Ymddiriedolaeth John Muir yn berthnasol.**